

# Mwy na geiriau:
## Straeon Bywyd Go Iawn

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Molly Brownless, BA Ffrangeg a Japanaeg.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Dwi'n siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl diolch i fy magwraeth. Dwi'n rhugl yn y Ffrangeg oherwydd fe wnes i fyw yn y wlad am flwyddyn a'i hastudio am fwy na degawd. Dwi'n siarad Japanaeg ac Almaeneg lefel canolradd.

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   Pan oeddwn i'n 14 oed – cyn dewis fy mhynciau TGAU.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Mae siarad sawl iaith wedi rhoi'r gallu i mi deithio a chwrdd â llawer mwy o ffrindiau o wahanol wledydd.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
   Dwi'n teimlo bod siarad sawl iaith wedi fy helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ac amldasgio gwell. Mae e wedi fy ngalluogi i ddod o hyd i waith hefyd.

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
   Addysgu iaith – Saesneg fel iaith ryngwladol siŵr o fod.

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
   Yr ymdeimlad o gyflawni rhywbeth drwy allu cyfathrebu â chymaint o wahanol bobl yn eu hiaith eu hunain.

www.mflmentoring.co.uk
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

8. **Beth fu'r fantais fwyaf annisgwyl o ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Deall fy iaith frodorol yn well, gallu mynd ar ddêt gyda phartneriaid o wahanol genhedloedd a gallu siarad yn fy mamiaith yn haws gyda llai o broblemau cyfathrebu.

9. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
   Ceisio mynd dros y rhwystr rhwng peidio â gallu siarad yn hyderus i allu siarad yn hyderus, s'dim ots ar ba lefel.

10. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
    *Komorebi (木漏れ日)* – dyma'r gair Japanaeg i ddisgrifio golau'r haul wrth iddo dreiddio drwy ddail y coed uwch dy ben.

11. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
    Hoffwn i siarad Groeg – bydd fy nheulu a fi'n mynd i Wlad Groeg yn aml. Mae gan yr iaith lawer o wreiddiau etymolegol a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer dysgu ieithoedd eraill a hoffwn ddysgu wyddor arall.

12. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
    Mae wedi atgyfnerthu fy awydd i ddysgu ieithoedd, ond mae hefyd wedi rhoi darlun ehangach i fi am sut i feithrin brwdfrydedd dysgwyr i astudio ieithoedd.

13. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**
    Fe wnaeth fy athrawes Ffrangeg blwyddyn 9 fy ysbrydoli i barhau i astudio Ffrangeg, ac wedyn syrthiais mewn cariad gyda dysgu ieithoedd.

14. **Oes gen ti straeon doniol i'w rhannu am dy brofiadau dysgu iaith?**
Un tro, ro'n i'n ceisio dweud wrth blant ysgol gynradd Ffrangeg fy mod i wedi cael ci bach ('*chiot*'), ond fe wnes i ynganu'r t ar ddiwedd y gair, sydd i fod yn dawel. Os wyt ti'n ynganu'r t ar ddiwedd y gair, mae'n newid i air slang am y 'toiled'!



15. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
Does dim rhaid i chi fod yn rhugl o gwbl. Dylech chi ddysgu am eich bod eisiau dysgu ac am fod gyda chi ddiddordeb. Y ffordd orau o fesur eich cynnydd yw cyfathrebu gyda rhywun arall sy'n siarad yr iaith.